# Cofnodion Cyfarfod
# Cyngor Cymuned Pistyll



Nos Fawrth 14eg o Ebrill, 2020 am 7:00y.h
Cynhalwyd ar lein drwy ap gymdeithasol Skype

Cadeirydd: Y Cyng. Sara Williams

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | | **Presenoldeb ac Ymddiheuriadau**<br><br>**Presennol -** Sara Williams **(SW),** Ynyr Ellis **(YE)**, Griffith Jones **(GO),** Gwilym Williams **(GW)**, Lisbeth James **(LJ)**, Sianelen Pleming **(SP)**, Cyng. Aled Jones **(AJ).**<br><br>**Ymddiheuriadau -** John Owen **(JO),**William Jones **(WJ),** Olwen Roberts **(OR),** Emlyn Hughes **(EH)**. |
| **2.** | | **Hysbysiadau'r Cadeirydd**<br>Diolchodd y Cadeirydd pawb yn bresennol am fynychu'r cyfarfod cyntaf ar lein. |
| **3.** | | **Datgan Diddordeb**<br>Dim |
| **4.** | | **Diweddariadau asedau**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn ystod y cyfarfod |
| **5.** | | **Cofnodion Cyfarfod Mawrth, 2020** |
| | ***5.1*** | **Cyflwyno a mabwysiadu**<br>Cynigiodd Sianelen gywirdeb i bwynt 8. Cofnodion cyfarfod Mawrth sef:<br>• y Ganolfan oedd yn gofyn am addasu'r gysgodfa nid Iolo<br><br>Cynigiodd GW gywirdeb gweddill y Cofnodion eiliodd GO a chytunodd pawb. |
| | ***5.2*** | **Materion yn codi** |
| | ***5.2.1*** | <u>Tramwyo i'r nant</u><br><br>Esboniodd y Clerc nad oedd ganddi unrhyw ddiweddariad pellach i'w gynnig gan ei bod wedi methu a chysylltu â'r swyddog tramwyo.<br><br>Eglurodd SP fod swyddog o'r Nant wedi gwrthod mynediad i'w gwr i'r llwybrau troed cyhoeddus a'i bod wedi cysylltu â'r Swyddog Llwybrau oedd wedi cadarnhau nad oedd y llwybrau yn y Nant wedi cael ei chau yn dilyn yr achos covid 19. Aeth ymlaen i esbonio bod  llwybrau Eryri, Y Wyddfa a Phen y Pas ac yn y blaen wedi ei chau.<br>Y Clerc I gysylltu â Nant Gwrtheyrn I ofyn am esboniad. |

*Llofnodwyd gan..........................................................................................Dyddiad.......................................................*

*Clerc Cygnor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*

| | | |
|---|---|---|
| | ***5.2.2*** | <u>Cais am wybodaeth i Adran Treth y Cyngor Sir</u><br><br>Gan ei bod wedi bod yn amhosib cysylltu â'r adran penderfynwyd cadw'r mater ar y rhaglen erbyn y mis nesaf. Yr Aelod Lleol i geisi gael gwybodaeth bellach yn y cyfamser. |
| | ***5.2.3*** | 1. <u>Biniau baw ci</u><br><br>2. Esboniodd y Clerc ei bod wedi e-bostio Adran Priffyrdd Dwyfor yn gofyn am ganiatâd i leoli'r biniau ond heb gael ymateb.<br>Y Clerc I gysylltu ymhellach. |
| | ***5.2.4*** | <u>Arwyddion dwyieithog dim gwersylla a dim ysbwriel yn y Maes Parcio ar dop y Nant</u><br><br>Cadarnhaodd GJ ei fod wedi derbyn 2 arwydd ond oherwydd y clwyf heb ei osod.<br>Aeth ymlaen I egluro bod unigolyn arall yn aros mewn fan ar y safle, hefyd bod tractor a dympar yn cael ei gadael yno hefyd twpath o goed ychwanegol wedi cael eu gadael.<br>Cytunodd y buasai yn gosod yr arwydd wythnos nesaf. Y Clerc I gysylltu a'r Cyngor Sir I roi cwyn ar ôl I GJ ei osod.<br>Gan nad oedd y Clerc wedi archebu 2 arwydd y Clerc hefyd i gysylltu ar Argraffdy er mwyn addasu'r anfoneb. |
| **6.** | | **Ceisiadau Cynllunio**<br>**Dim** |
| **7.** | | **Ceisiadau am gymorth** |
| | ***7.1*** | <u>Dr Arfon Williams Meddygfa Nefyn</u><br><br>Derbyniwyd cais am gymorth tuag at achos archebu masgiau arbennig i Feddygon ac Ysbytai Llyn ac Eifionydd yn dilyn yr argyfwng Covid 19<br>Cynigiodd LJ ac eilliodd YE wneud cyfraniad o £1,000.00 cytunodd pawb. |
| | ***7.2*** | <u>Grŵp Apêl Uned Cancr a Haematoleg Alaw</u><br><br>Penderfynwyd ei gadw tan ddiwedd y flwyddyn ariannol oherwydd cyllid. |
| **8.** | | **Y Ganolfan**<br><br>Penderfynwyd gadael mater Prydles y Ganolfan tan fod y Cyngor yn gallu cyfarfod wyneb yn wyneb. |
| **9.** | | **Tori Gwair y Fynwent**<br><br>Cyflwynwyd tri thendr am y gwaith am y flwyddyn 2020 -2021<br>Cynigiodd YE ac eiliodd GJ dderbyn y rhatach sef Roger Chwilog.<br>Cytunodd GW ei hysbysu o'i llwyddiant a'r Clerc I ddiweddaru'r gweddill. |

*Llofnodwyd gan.......................................................................................Dyddiad......................................................*

| | | |
|---|---|---|
| **10.** | | **Ffurflen Flynyddol (Awdit 2019/20)**<br><br>Y Clerc wedi rhannu'r wybodaeth gan y Swyddfa Archwilio o flaen llaw a newidiadau i drefniadau'r archwiliad am y flwyddyn.<br>Penderfynwyd cadw at gymorth y Swyddfa Archwilio ac Un Llais Cymru |
| **11.** | | **Materion Lleol**<br><br>Awgrymodd SP bydd angen trafod Gor yrru yn yr ardal eto fis nesaf gan fod problemau yn parhau ar lon y Nant ac yn y pentref |
| **12.** | | **Gohebiaeth a Gwybodaeth** |
| | ***12.1*** | **Covid-19: Bwletin Pasg gan Liz Saville Roberts**<br>Y Wybodaeth wedi ei rannu o flaen llaw, ni dderbyniwyd sylwadau pellach. |
| | ***12.2*** | **Newidiadau i wasanaethau Cyngor Gwynedd**<br>Y Wybodaeth wedi ei rannu o flaen llaw, ni dderbyniwyd sylwadau pellach. |
| | ***12.3*** | **Bwletin newyddion Un Llais Cymru**<br>Y Wybodaeth wedi ei rannu o flaen llaw, ni dderbyniwyd sylwadau pellach. |
| | ***12.4*** | **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020. angladdau ac amlosgiadau.**<br>Y Wybodaeth wedi ei rannu o flaen llaw, ni dderbyniwyd sylwadau pellach. |
| | ***12.5*** | **Welsh Council Defibrillator Drive for Gwynedd**<br>Y Wybodaeth wedi ei rannu o flaen llaw, ni dderbyniwyd sylwadau pellach. |
| | ***12.6*** | **Post Office Network in Wales - COVID-19 Update**<br>Nodwyd SP bod gostyngiad anhygoel wedi bod i'r gwasanaeth dros yr wythnosau diwethaf<br>Cytunwyd bydd yr Aelod Lleol Aled yn dilyn i fynnu |
| | ***12.7*** | **Dull y Llywodraeth o ymdrin â deddfwriaeth yn dilyn yr achosion o COVID-19.**<br>Y Wybodaeth wedi ei rannu o flaen llaw, ni dderbyniwyd sylwadau pellach. |
| | ***12.8*** | **Cau Ffordd Dosbarth III gyferbyn a Thŷ'r Ysgol, Llithfaen ar y 20 o Ebrill 2020**<br>Y Wybodaeth wedi ei rannu o flaen llaw, ni dderbyniwyd sylwadau pellach. |
| | ***12.9*** | **Datganiad Eisteddfod Genedlaethol - Covid 19**<br>Y Wybodaeth wedi ei rannu o flaen llaw, ni dderbyniwyd sylwadau pellach. |
| | ***12.10*** | **Diweddariad Archwilio 2019 - Covid 19**<br>Y Wybodaeth wedi ei rannu o flaen llaw, ni dderbyniwyd sylwadau pellach. |
| | ***12.11*** | **COVID-19 and the audit of community and town council accounts**<br>Y Wybodaeth wedi ei rannu o flaen llaw, ni dderbyniwyd sylwadau pellach. |
| | ***12.12*** | **Gwybodaeth Trefniadau Ariannol A Llywodraethiant Un Llais Cymru**<br>Y Wybodaeth wedi ei rannu o flaen llaw, ni dderbyniwyd sylwadau pellach. |

*Llofnodwyd gan.........................................................................................Dyddiad......................................................*

| | | |
|---|---|---|
| **13.** | | **Cyllid** |
| | ***13.1*** | **Cyfrifon terfynol 2019/20 a chyfrifon 2020/21**<br>Adolygwyd y Llyfr arian, Cysoniad banc, a Rhagamcanion 2019/20.<br>Bydd angen addasu eto cyfrifon 2020/21 oherwydd problemau gyda'r fformiwla. Byddent yn cael eu cymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Cyngor |
| | ***13.2*** | **Ceisiadau am gymorth**<br>Wedi eu trafod ym mhwynt 7 |
| | ***13.3*** | **Trafodion y gyfriflen banc diweddaraf**<br><br>**<u>Cyfrif Cyfredol</u>**<br><br>Taliadau - £160.00 Cyflog Clerc<br>£18.63 Treuliau Clerc<br>£96.00 Ail ymaelodi Un Llais Cymru<br>Balans - <u>£6,116.49</u><br><br><u>NODWYD NAD OEDD SIECIAU'R RHODDION WEDI MYND TRWY'R BANC ETO</u><br><br>**<u>Cyfrif Cadw</u>**<br><br>Derbyniadau – £495.50 arian (tuag at gronfa'r Diffiblwr)<br>£500.00 siec (tuag at gronfa'r Diffiblwr)<br>Balans - <u>£4,403.46</u> |
| | ***13.4*** | **Taliadau a gymeradwywyd yn y Cyfarfod**<br><br>£160.00 Cyflog Clerc<br>£ 14.00 Treuliau Clerc<br>£1,000.00 Tuag at Gronfa Masgiau |
| | ***13.5*** | **Trefniadau Cyllid Covid 19**<br><br>Cytunwyd i'r Clerc wneud cais am Fancio ar lein |
| ***14.*** | | **Trefniadau a dyddiad y Cyfarfod nesaf**<br><br>Oherwydd y rheolau yn ystod yr amser Coronafirws disgwylir i gyfarfodydd Mai fod fel y canlynol:<br>• Cyfarfod blynyddol – 12.05.20 i ddechrau am 6.20 ar Skype<br>• Cyfarfod misol i ddilyn am 7.00<br>Y Cyngor i dderbyn a dilyn awgrymiadau'r Llywodraeth yn y cyfamser<br><br>Derbyniwyd cais gan SP i'r Cyngor dderbyn y Cofnodion draft o fewn wythnos ar ôl y Cyfarfod yn fisol rhan hwylustod i'r aelodau. Cytunodd y Clerc. |

*Llofnodwyd gan..........................................................................................Dyddiad......................................................*